*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 935 (Cy.95)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ceredigion a Chanolbarth Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2008* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 29 o Atodlen 3 iddi, mae Gweinidogion Cymru, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad fel a ragnodwyd o dan baragraff 29(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ceredigion a Chanolbarth Cymru (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008 a daw i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 April 2008;

ystyr "yr hen ymddiriedolaeth" ("*the old trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ceredigion a Chanolbarth Cymru a sefydlwyd ar 16 Tachwedd 1992;

ystyr "yr ymddiriedolaeth newydd" ("*the new trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda a sefydlwyd ar 12 Mawrth 2008.

**Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), bydd contract cyflogaeth unrhyw berson a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn cael ei gyflogi gan yr hen ymddiriedolaeth yn cael ei drosglwyddo i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y contract hwnnw'n effeithiol fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person a gyflogid felly a'r ymddiriedolaeth newydd.

(**1**) 2006. p.42.
(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996, O.S. 1996/653, sy'n parhau i gael effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006. p.43.

(2) Heb ragfarnu paragraff (1) uchod —

(a) yn rhinwedd yr erthygl hon, bydd yr holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau o dan gontract neu mewn cysylltiad â chontract y mae'r paragraff hwnnw'n gymwys iddo yn cael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) bernir bod popeth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan yr hen ymddiriedolaeth neu mewn perthynas â hi o ran y contract hwnnw neu'r cyflogai hwnnw, wedi ei wneud, o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, gan yr ymddiriedolaeth newydd neu mewn perthynas â hi.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn rhagfarnu yn erbyn unrhyw hawl sydd gan unrhyw gyflogai i derfynu ei gontract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol er niwed i'w amodau gwaith, ond ni fydd hawl o'r fath yn codi dim ond oherwydd y newid mewn cyflogwr y rhoddir effaith iddo gan yr erthygl hon.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**3.** Ar y dyddiad trosglwyddo bydd holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r hen ymddiriedolaeth, sydd heb eu crybwyll yn erthygl 2 uchod, yn cael eu trosglwyddo i'r ymddiriedolaeth newydd gan gynnwys heb gyfyngiad—

(a) y ddyletswydd i baratoi cyfrifon sydd heb eu cwblhau gan yr hen ymddiriedolaeth ac i gyflawni'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny;

(b) eiddo ymddiriedol yr hen ymddiriedolaeth a restrir yn Atodlen 1;

(c) elusennau'r hen ymddiriedolaeth a restrir yn Atodlen 2.

**Trosglwyddo swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd**

**4.** Trosglwyddir holl swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd a byddant yn cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2008

## ATODLEN 1

Erthygl 3(b)

| *Eiddo* | *Deiliadaeth (a rhif teitl pan fo'n gymwys)* |
|---|---|
| **Ysbyty** | |
| Ysbyty Aberaeron | Rhydd-ddaliad (WA767824) |
| Ysbyty Cyffredinol Bronglais (gan gynnwys swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth) | Rhydd-ddaliad (WA791292) |
| | Rhydd-ddaliad (WA750253) |
| | Rhydd-ddaliad (WA751368) |
| | Rhydd-ddaliad (WA556447) |
| | Rhydd-ddaliad (WA763771) |
| | Rhydd-ddaliad (WA763773) |
| | Rhydd-ddaliad (WA784029) |
| | Rhydd-ddaliad (WA816231) |
| | Rhydd-ddaliad (CYM31161) |
| Ysbyty Aberteifi a'r Cylch | Rhydd-ddaliad (WA832737) |
| Ysbyty Tregaron | Rhydd-ddaliad (WA825649) |
| Tir gerddi y tu ôl i'r Bryn | Rhydd-ddaliad (CYM241645) |
| **Canolfannau Iechyd** | |
| Canolfan Iechyd Aberteifi | Rhydd-ddaliad (WA788880) |
| **Clinigau** | |
| Clinig Llanbedr Pont Steffan | Rhydd-ddaliad (WA830020) |
| Clinig Ffordd y Gogledd, Aberystwyth | Rhydd-ddaliad (WA825763) |
| **Amrywiol** | |
| Wern, Ffordd Caradoc, Aberystwyth | Rhydd-ddaliad (WA474814) |
| 2, Plas Danycoed, Aberystwyth | Lesddaliad |
| 4, Plas Danycoed, Aberystwyth | Lesddaliad |
| 46, Danycoed, Aberystwyth | Lesddaliad |
| Swyddfeydd Pantyfedwen , 9 Stryd y Farchnad, Aberystwyth | Lesddaliad |

## ATODLEN 2

Erthygl 3(c)

Cronfa Gyffredinol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru (gan gynnwys pob is-elusen) — Rhif elusen 1052231.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ceredigion a Chanolbarth Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda o 1 Ebrill 2008 ymlaen.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ceredigion a Chanolbarth Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Hywel Dda ar 1 Ebrill 2008.